Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheoleath Ariannol Annigonol a Cholledion i Bwrs y Wlad – Cyngor Cymuned Ynysawdre

Blynyddoedd archwilio: 2016-17 a 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2618A2021-22

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yng Nghyngor Cymuned Ynysawdre yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Awst 2017.

Fe gyfrannodd y methiannau hyn yn uniongyrchol at golled o fwy nag £84,000 i Ynysawdre gan gynnwys taliadau anghyfreithlon a wnaed gan glerc blaenorol y Cyngor, Mrs Natalie Morgan, i'w chyfrifon banc hi ei hun, a oedd dros £73,000.

Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir, yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 5

Canfyddiadau allweddol 7

Argymhellion a'r camau nesaf 9

Adroddiad manwl

Mae'r mwyafrif o'r cofnodion ariannol y byddwn yn disgwyl i'r Cyngor eu cadw wedi cael eu colli i'r Cyngor 12

Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Awst 2017 fe wnaeth Mrs Morgan daliadau i'w chyfrifon banc personol a oedd yn gyfanswm o £112,997 13

O'r £112,997 a dalodd Mrs Morgan i mewn i'w chyfrif banc, nid oedd unrhyw hawl gytundebol ganddi i gael £73,703 ac roedd y trywydd archwilio a grëwyd ganddi'n celu gwir natur llawer o'r trafodion 15

Rwyf wedi methu â chadarnhau diffuantrwydd dau daliad â siec a wnaed gan y Cyngor ond rwy'n credu bod un taliad yn ymwneud â 'benthyciad' anghyfreithlon o £3,277 i Mrs Morgan 16

Yn ychwanegol at drosglwyddiadau i'w chyfrif hi ei hun, fe wnaeth Mrs Morgan gyfres o drosglwyddiadau amhriodol rhwng Cyngor Cymuned Ynysawdre a Chyngor Cymuned Llangynwyd Ganol gyda throsglwyddiad net i Langynwyd Ganol o £6,000 17

Ym mis Ebrill 2017 fe sefydlodd Mrs Morgan gyfrifon banc newydd heb yn wybod i'r Cyngor a heb gael awdurdodiad ganddo ac fe'i sefydlodd ei hun fel unig lofnodwr y cyfrifon 19

Er mai ei Glerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol, Mrs Morgan, sy’n bennaf gyfrifol am golli £73,703 a dalwyd i Mrs Morgan a £6,000 a drosglwyddwyd i Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol, fe wnaeth methiant y Cyngor i arfer y safonau rheolaeth ariannol a llywodraethu gofynnol trwy gydol y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Awst 2017 alluogi Mrs Morgan i wneud y taliadau amhriodol hyn iddi hi ei hun 20

Atodiadau

Atodiad 1: Dadansoddiad o daliadau anghyfreithlon a wnaed gan Mrs Morgan 25

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Dan adran 22 Deddf 2004, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried a ddylai, er budd y cyhoedd, gyhoeddi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Cymuned Ynysawdre (y Cyngor) neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

2 Yng ngoleuni'r methiannau difrifol mewn rheolaeth ariannol gan y Cyngor ei hun a'r colledion sylweddol i bwrs y wlad a ddilynodd y methiannau hyn, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn egluro beth ddigwyddodd yn y Cyngor ac yn amlygu'r methiannau a arweiniodd at golli dros £80,000.

3 Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf wedi ystyried sylwadau a wnaed gan y Cyngor nad oedd y mwyafrif o'r cynghorwyr cyfredol a'r clerc cyfredol yn eu swyddi yn ystod y cyfnod yr oedd yr archwiliad yn ymwneud ag ef ac y gallai darllenwyr yr adroddiad fwrw'r bai am y materion hanesyddol ar yr aelodau a'r clerc cyfredol. Mynegodd y Cyngor ei farn hefyd y gallai cyhoeddi adroddiad o'r fath gael effaith anffafriol ar barodrwydd unigolion i sefyll mewn etholiad ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol.

4 Fodd bynnag, yn fy marn i, mae'r angen i dynnu sylw at fethiannau sylweddol y Cyngor hyd at fis Awst 2017 yn gwrthbwyso'r effeithiau posibl hyn. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn ac iawn o'r digwyddiadau a oedd yn ymwneud â'r Cyngor a bod y Cyngor yn cael y cyfle i ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau. Ar ben hynny, er bod fy nghanfyddiadau archwilio'n ymwneud yn benodol ag Ynysawdre, ceir gwersi pwysig i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

5 Dylai'r Cyngor ddefnyddio'r adroddiad hwn a'r argymhellion a geir ynddo i helpu i sicrhau bod y risg y gallai colledion o'r fath ddigwydd eto yn y dyfodol yn cael ei leihau i'r eithaf. Rwyf hefyd wedi nodi isod rai o'r camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r gwendidau hanesyddol.

### Cyngor Cymuned Ynysawdre

6 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu cymuned fechan Ynysawdre ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n gwario oddeutu £30,000 y flwyddyn, a ariennir yn bennaf gan braesept oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor.

7 Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Cyngor o bwrs y wlad. Caiff Aelodau'r Cyngor eu hethol gan drigolion lleol (neu gallant gael eu cyfethol gan y Cyngor lle ceir lleoedd gwag oherwydd diffyg ymgeiswyr). Mae etholiadau'n galluogi'r Cyngor i gael ei ddwyn i gyfrif gan yr etholaeth leol mewn perthynas â'r modd y mae'n rheoli arian

cyhoeddus. Mae cyfrifon y Cyngor a chynnal archwiliad o'r Cyngor yn allweddol i alluogi atebolrwydd o'r fath.

8 Mae cynghorau cymuned, fel Ynysawdre, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc fel Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

9 Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Medi 2017, roedd y Cyngor yn cyflogi Mrs Natalie Morgan (Mrs Morgan) fel ei Glerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol. Mrs Morgan oedd Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol hefyd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Medi 2017. Er mwyn sicrhau eglurder, lle y bo'n briodol rwy'n cyfeirio at y clerc blaenorol wrth ei henw am weddill yr adroddiad hwn.

10 Er bod rôl y Clerc yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, aelodau'r Cyngor). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

11 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor eu paratoi, a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r Cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

12 Mae'r Cyngor yn paratoi ei gyfrifon ar sail derbyniadau a thaliadau syml. Mae hyn yn golygu bod trafodion yn cael eu cofnodi pan wneir taliadau neu pan ddaw arian i law. Caiff trafodion unigol eu dosbarthu i un o ddau is-gategori, sef derbyniadau neu daliadau. Caiff derbyniadau eu cofnodi naill ai fel derbyniad rhandaliad praesept neu fel derbyniad 'arall'. Caiff taliadau eu cofnodi fel costau staff (cyflogau a.y.b.) neu fel taliad 'arall'. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y categorïau hyn eu hadio a'u cofnodi yn y cyfrifon diwedd blwyddyn.

13 Ym mis Medi 2017, tynnodd aelodau'r Cyngor fy sylw at achosion o afreoleidd-dra yr oeddent hwy wedi'u canfod yng nghyfriflenni banc y Cyngor a phryderon ynghylch cyfrifon banc a sefydlwyd gan Mrs Morgan. Fe arweiniodd hyn at neilltuo'r cyfrifoldeb am yr archwiliadau o'r cyfrifon hyn i aelod o staff Archwilio Cymru er mwyn eu cwblhau'n foddhaol.

14 Ar yr un pryd, rhoddwyd gwybod i Heddlu De Cymru am yr achosion hyn o afreoleidd-dra. Er gwaethaf fy nghanfyddiadau archwilio a nodir isod ac yn yr

adroddiad manwl sydd wedi'i atodi, mae'n bwysig nodi nad arweiniodd yr ymchwiliad gan yr heddlu at ddwyn cyhuddiadau troseddol yn erbyn unrhyw unigolyn.

15 Gan bod cofnodion y Cyngor wedi cael eu colli bron i gyd, er mwyn cwblhau fy ngwaith archwilio, fe archwiliais ddogfennau a ddarparwyd ar fy nghyfer gan y Cyngor, Heddlu De Cymru a banc y Cyngor. Fe wnes i hefyd gyfweld â chynghorwyr cyfredol a blaenorol a'r Clerc cyfredol. Gofynnwyd i'r Clerc blaenorol, Mrs Morgan, ddod i gyfarfod i drafod yr archwiliad ond fe wrthododd oherwydd amgylchiadau personol. Felly fe gyflwynais gyfres o gwestiynau iddi i fynd i'r afael â'r materion a ganfuwyd o'm gwaith archwilio. Rwyf hefyd wedi rhoi'r cyfle iddi wneud sylwadau ar fy nghanfyddiadau archwilio a'r casgliadau a nodir yn yr adroddiad hwn. Nid yw Mrs Morgan wedi darparu unrhyw ymateb i'm cwestiynau na'm canfyddiadau archwilio a'm casgliadau.

# Canfyddiadau allweddol

16 Ar sail y gwaith y mae fy nhîm wedi'i wneud, rwyf wedi fy argyhoeddi y bu colled sylweddol i bwrs y wlad.

17 Fel arfer, mae fy archwiliad yn archwilio dogfennaeth a chofnodion ariannol a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae'r cofnodion hyn yn cynnwys:

- Llyfr arian neu lyfr cyfrifon sy'n cofnodi trafodion y Cyngor
- Cyfriflenni banc
- Anfonebau cyflenwyr a derbyniadau
- Cofnodion cyfarfodydd

18 Nid oedd y Cyngor yn gallu darparu'r rhan fwyaf o'r cofnodion yr wyf yn disgwyl fel arfer iddynt fod ar gael i'w harchwilio. Eglurodd y Cyngor mai Mrs Morgan fu'n gyfrifol am ddal yr holl gofnodion yr oedd eu hangen arnaf. Rhoddodd y Cyngor wybod i mi mai dim ond cofnodion cyfyngedig iawn a roddodd Mrs Morgan yn ôl i'r Cyngor. Dywedodd Mrs Morgan wrth Heddlu De Cymru ei bod wedi rhoi'r holl gofnodion yn ôl i'r Cyngor.

19 Nid wyf yn gallu cadarnhau a wnaeth Mrs Morgan yn wir ddychwelyd yr holl gofnodion fel a ddywedodd, ac felly nid wyf yn gallu dod i gasgliad pam nad yw'r cofnodion yr oedd eu hangen ar gyfer yr archwiliad ar gael mwyach.

20 Yn seiliedig ar y dystiolaeth yr wyf wedi gallu ei chael, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- fe wnaeth Mrs Morgan daliadau iddi hi ei hun nad oedd ganddi hawl gytundebol i'w cael ac a wnaed heb yn wybod i'r Cyngor a heb ei gydsyniad. Fe wnaed y taliadau hyn yn rheolaidd ac fe gelodd Mrs Morgan wir natur y trafodion trwy gofnodi manylion anghywir wrth wneud y trafodion.
- trwy gydol cyfnod Mrs Morgan yn y rôl fel Clerc, methodd y Cyngor ag arfer y safonau rheolaeth ariannol a llywodraethu gofynnol y byddwn yn disgwyl eu gweld ar waith mewn cyngor fel Cyngor Cymuned Ynysawdre. Methodd y

Cyngor â sefydlu rheolaethau mewnol priodol i warchod ei faterion ariannol a methodd â gweithredu mewn modd digonol i oruchwylio taliadau a wnaed gan Mrs Morgan a chraffu arnynt.

21 Yn arbennig, methodd y Cyngor â sicrhau:

- bod taliadau a wnaed gan y Clerc wedi'u hawdurdodi'n briodol;
- ei fod yn monitro'i sefyllfa ariannol yn ddigonol; a hefyd
- ei fod yn sicrhau system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol.

22 O ganlyniad yn uniongyrchol i'r methiant hwn, ysgwyddodd Ynysawdre golled ariannol sylweddol. Rwyf wedi cyfrifo mai £84,020 oedd y golled hon fel a nodir yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: colledion a ysgwyddwyd gan Gyngor Cymuned Ynysawdre**

Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Medi 2017, ysgwyddodd Cyngor Cymuned Ynysawdre golledion yr oedd eu cyfanswm yn £84,020[1]

| | |
|---|---|
| Taliadau gormodol a wnaed gan Mrs Morgan | £73,703 |
| Taliadau siec heb eu hadnabod | £4,317 |
| Trosglwyddiad net i Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol | £6,000 |
| Cyfanswm y golled a ysgwyddwyd gan Gyngor Cymuned Ynysawdre | £84,020 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

23 Yn ôl fy nghyfrifiadau i, yn y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Medi 2017, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau anghytundebol iddi hi ei hun a oedd yn gyfanswm o £73,703. Yn fy marn i, nid oedd gan Mrs Morgan unrhyw hawl gyfreithlon i wneud a derbyn y taliadau hyn.

24 Yn ystod yr un cyfnod, canfûm ddau daliad sylweddol â siec yr oedd eu cyfanswm yn £4,317 nad yw aelodau'r Cyngor yn eu hadnabod. Ymddengys mai 'benthyciad' o £3,227 i Mrs Morgan yw un o'r rhain.

25 Yn ogystal â thaliadau anghytundebol a wnaed iddi hi ei hun a/neu i'w gŵr, fe drosglwyddodd Mrs Morgan arian yn anghyfreithlon hefyd rhwng Cyngor Cymuned Ynysawdre a Chyngor Cymuned Llangynwyd Ganol gyda cholled net o £6,000 i Gyngor Cymuned Ynysawdre.

26 Rwyf wedi nodi mewn mwy o fanylder beth yw natur y colledion hyn yn yr adroddiad manwl sydd wedi'i atodi a'r atodiad wrth yr adroddiad hwnnw.

[1] Mae'r adroddiad manwl a'r atodiad wrtho'n nodi mewn mwy o fanylder sut y cododd y colledion hyn.

27 Tynnaf sylw'r darllenydd at y ffaith bod colledion pellach a thebyg i bwrs y wlad wedi'u hysgwyddo gan Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Argymhellion a chamau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

28 Tynnaf sylw'r Cyngor at yr argymhellion canlynol i fynd i'r afael â'r diffygion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad:

**Arddangosyn 2: argymhellion**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw rhestr o'i holl gofnodion cyfrifyddu allweddol, gan gynnwys trefniadau i drosglwyddo cofnodion yn ddiogel pan fo cyflogaeth y clerc yn dod i ben. |
| A2 | Dylai'r Cyngor adolygu ei system rheolaeth fewnol i ganfod a chywiro unrhyw ddiffygion yn ei drefniadau cyfredol. |
| A3 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod trefniadau craffu ac adolygu priodol ar waith i wneud yn siŵr bod y Clerc yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n ddigonol ac yn effeithiol. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw copïau o holl gofnodion staff allweddol megis contractau cyflogaeth ac yn eu storio'n ddiogel, yn hytrach na bod y dogfennau hyn yn cael eu dal gan y Clerc. |
| A5 | Dylai'r Cyngor ystyried a ddylai geisio adennill y £73,703 nad oedd hawl gan Mrs Morgan i'w gael dan ei chontract cyflogaeth oddi arni ac adennill y 'benthyciad' o £3,277 a wnaed iddi ym mis Mai 2013. |

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A6 | Dylai'r Cyngor negodi gyda Chyngor Cymuned Llangynwyd Ganol i adennill peth neu'r cyfan o'r trosglwyddiad net o £6,000 i Langynwyd Ganol. |
| A7 | Gan gael cyngor os oes angen, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall y goblygiadau trethiant ar gyfer pob agwedd ar becyn cydnabyddiaeth ariannol y Clerc a'i fod yn hysbysu Cyllid a Thollau EM ynghylch buddion trethadwy fel y bo'n briodol. |
| A8 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn penodi ei archwilydd mewnol ac yn gwneud trefniadau i'r Cyngor gael cyswllt uniongyrchol â'r archwilydd mewnol fel y bo'n ofynnol. |

29 Mae fy argymhellion yn ymdrin â'r materion penodol a ganfûm yn ystod fy archwiliad. Ers dechrau fy archwiliad, mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau pwysig gan gynnwys:

- penodi clerc newydd ac archwilydd mewnol newydd; a
- chyflwyno system rheolaeth fewnol newydd gyda mwy o graffu ar faterion ariannol y Cyngor.

30 Byddaf yn archwilio effeithiolrwydd y trefniadau a wnaed gan y Cyngor yn ystod archwiliadau yn y dyfodol.

## Camau nesaf

31 Yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor erbyn 14 Tachwedd 2021, h.y. o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.

32 O leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned a hwnnw'n nodi:

- amser a lleoliad y cyfarfod;
- bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
- disgrifiad o gynnwys yr adroddiad.

33 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;

- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

34 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Adroddiad manwl

## Mae'r mwyafrif o'r cofnodion ariannol y byddwn yn disgwyl i'r Cyngor eu cadw wedi cael eu colli i'r Cyngor

### Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol

35 Mae Rheoliad 6 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cyllid cyfrifol y Cyngor benderfynu ar ran y Cyngor, ar ôl ystyried, lle bo'n briodol, arferion priodol, ei:

- gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol; a
- systemau rheoli cyfrifyddu.

36 Rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol sicrhau bod y systemau rheoli cyfrifyddu a benderfynir gan y swyddog hwnnw yn cael eu dilyn a bod cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor yn cael eu diweddaru a'u cynnal yn unol â'r gofynion cyfreithiol ac arferion priodol.

37 Rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu y penderfynir arnynt gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol:

- fod yn ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y Cyngor ac i alluogi'r Swyddog Cyllid Cyfrifol i sicrhau bod unrhyw ddatganiad cyfrifon neu ddatganiad cyfrifyddu a gaiff eu paratoi ar gyfer y Cyngor, yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; a
- chynnwys cofnodion o ddydd i ddydd o'r holl symiau o arian a dderbynnir ac a warir gan y Cyngor a'r materion y mae'r cyfrifon derbyniadau a thaliadau yn ymwneud â hwy a chofnod o asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor.

38 Rhaid i'r systemau rheoli cyfrifyddu gynnwys mesurau i sicrhau bod trafodion ariannol y Cyngor yn cael eu cofnodi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ac mor gywir ag sy'n rhesymol bosibl. Rhaid i'r systemau rheoli hefyd gynnwys mesurau i alluogi rhwystro a chanfod anghywirdebau a thwyll, a'r gallu i ailgyfansoddi unrhyw gofnodion a gollwyd.

### Yn dilyn ymadawiad Mrs Morgan â'r Cyngor, dim ond cofnodion cyfyngedig iawn oedd ar gael i'w harchwilio

39 Mae'n hanfodol bod parhad y cofnodion cyfrifyddu a dogfennau ategol yn cael ei gynnal rhwng newidiadau o ran y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol pan fo'n gadael y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor a'r Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol ill dau gydnabod bod y cofnodion a ddelir gan y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn perthyn i'r Cyngor a'u trin a'u trafod yn briodol.

40 Cafodd cwmpas fy archwiliad ei gwtogi gan y bylchau sylweddol yn y cofnodion a oedd ar gael i mi. Fe wnaeth ymholiadau cychwynnol a gyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor a'r Clerc cyfredol ddynodi mai dim ond cofnodion cyfyngedig iawn o eiddo'r Cyngor yr oedd Mrs Morgan wedi'u dychwelyd. Fodd bynnag, mae Mrs Morgan wedi dweud ei bod wedi dychwelyd holl gofnodion y Cyngor i'r Cyngor.

41 O ganlyniad i golli'r cofnodion, nid oeddwn yn gallu archwilio dogfennau ategol trydydd partïon i ddilysu'r mwyafrif o'r trafodion er mwyn gwirio cyfreithlondeb y taliadau a wnaed.

42 Fel Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor, fe ymddiriedwyd yn Mrs Morgan i reoli materion ariannol y Cyngor. Bu'n rheoli cyfrifon banc y Cyngor, gan gychwyn taliadau i'w chyfrifon banc personol ac i gyflenwyr trydydd parti. Trwy gydol ei chyfnod yn y swydd fel Clerc, bu Mrs Morgan yn defnyddio cyfleusterau bancio dros y we i wneud taliadau ar ran y Cyngor.

43 O ganlyniad i golli cofnodion ariannol y Cyngor, archwiliais gopïau o gyfriflenni banc y Cyngor (a ddarparwyd gan y banc) i adnabod natur y trafodion hyd y gellid o'r manylion a oedd wedi'u cofnodi ar y cyfriflenni banc. Cafodd y manylion hyn eu rhoi i mewn gan Mrs Morgan pan gychwynnodd hi'r trafodion. A minnau wedi adnabod natur trafodion unigol o'r cyfriflenni banc, fe ddilynais y trafodion wedyn i gyfrif banc y talai i ganfod pwy gafodd yr arian.

44 Mae'n bwysig nodi bod y cyfriflenni banc yn rhan annatod o gofnodion cyfrifyddu'r Cyngor a dylai'r manylion a roddwyd i mewn gan Mrs Morgan ddarparu cofnod cywir o'r trafodion gan gynnwys derbynnydd yr arian.

45 Canfu fy archwiliad nifer o achosion o afreoleidd-dra a chaiff y rhain eu disgrifio mewn mwy o fanylder isod.

## Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Awst 2017 fe wnaeth Mrs Morgan daliadau i'w chyfrifon banc personol a oedd yn gyfanswm o £112,997

46 Canfu fy archwiliad werth £112,997 o daliadau a wnaed i gyfrifon banc personol Mrs Morgan. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau lle mae'r gyfriflen banc yn nodi mai Mrs Morgan oedd y derbynnydd. Canfu fy archwiliad daliadau hefyd a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan sydd wedi'u cofnodi ar gyfriflen banc y Cyngor fel taliad i drydydd parti. Mae **Arddangosyn 3** isod yn dadansoddi'r taliadau hyn ar draws pob blwyddyn ariannol pan oedd Mrs Morgan yn dal swydd Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol.

**Arddangosyn 3: taliadau a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan**

Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Awst 2017, trosglwyddodd Mrs Morgan £112,997 o gyfrifon banc Cyngor Cymuned Ynysawdre i'r chyfrifon banc hi ei hun.

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau a oedd yn gysylltiedig â chyflog a buddion cyflogaeth Mrs Morgan[2] | £4,125 | £8,620 | £14,490 | £18,324 | £15,354 | £10,863 | £71,777 |
| Taliadau a gofnodwyd fel rhai a oedd yn gysylltiedig â Cyllid a Thollau EM[3] | £0 | £0 | £1,618 | £1,725 | £6,250 | £2,277 | £11,870 |
| Taliadau eraill gan gynnwys y rhai a gofnodwyd fel rhai a dalwyd i drydydd partïon[4] | £0 | £97 | £3,835 | £10,340 | £8,213 | £7,528 | £29,351 |
| Cyfanswm | £4,125 | £8,717 | £19,943 | £30,390 | £29,817 | £20,668 | £112,997 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon banc Cyngor Cymuned Ynysawdre

47 Cafodd bron pob taliad a wnaed gan y Cyngor yn ystod cyfnod Mrs Morgan yn y swydd fel clerc eu gwneud trwy drosglwyddiadau banc gan ddefnyddio cyfleusterau bancio dros y we. Cadarnhaodd Mrs Morgan wrth yr heddlu mai hi oedd yr unig berson a oedd â mynediad at y manylion mewngofnodi ac felly mai hi oedd yn gyfrifol am gychwyn yr holl daliadau a wnaed trwy drosglwyddiad banc.

48 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn egluro sut y gwnaeth Mrs Morgan daliadau i'w chyfrifon personol nad oedd hawl gyfreithlon ganddi i'w derbyn.

[2] Mae'r cofnodion ar gyfer y taliadau hyn yn nodi N Morgan fel y derbynnydd. Nid yw'r holl daliadau wedi'u cynnwys yma. Er enghraifft, nid ydynt yn cynnwys taliadau niferus â gwerth isel sydd i'w gweld fel pe baent yn ad-daliadau amrywiol e.e. treuliau teithio.

[3] Mae'r cofnodion ar y cyfriflenni banc yn nodi taliadau i Mrs Morgan, e.e. NKMorgan CaThEM, ac yn uniongyrchol i Cyllid a Thollau EM, e.e. CaThEM TWE XXNNNNNNX (Rhif Yswiriant Gwladol wedi'i dynnu allan).

[4] Mae'r cyfriflenni banc yn nodi mai trydydd parti oedd derbynnydd yr arian ond mewn gwirionedd trosglwyddwyd yr arian i gyfrif banc personol Mrs Morgan.

## O’r £112,997 a dalodd Mrs Morgan i mewn i’w chyfrif banc, nid oedd unrhyw hawl gytundebol ganddi i gael £73,703 ac roedd y trywydd archwilio a grëwyd ganddi’n celu gwir natur llawer o’r trafodion

49 Mae fy archwiliad wedi canfod bod Mrs Morgan wedi gwneud taliadau a oedd yn gyfanswm o £73,703 i’w chyfrifon banc personol nad oedd hawl gytundebol ganddi i’w derbyn yn fy marn i. Mae’r taliadau gormodol hyn yn gyfran sylweddol o gyfanswm y taliadau a wnaeth Mrs Morgan i’w chyfrifon banc hi ei hun. Yn 2014-15, roedd y taliadau hyn yn 41% o gyfanswm gwariant y Cyngor. Yn 2015-16 a 2016-17, roeddent yn 52% o’i gyfanswm gwariant.

**Arddangosyn 4: Taliadau gormodol a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan**

Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Awst 2017, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau gormodol o gyfrif banc Cyngor Cymuned Ynysawdre i’w chyfrifon banc hi ei hun yr oedd eu cyfanswm yn £73,703

| Diben honedig | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog a buddion | £0 | £2,320 | £7,244 | £10,325 | £6,355 | £6,788 | £33,032 |
| CaThEM | £0 | £0 | £1,618 | £1,725 | £6,250 | £2,277 | £11,870 |
| Taliadau eraill | £0 | £97 | £3,835 | £9,615 | £7,727 | £7,528 | £28,802 |
| Cyfanswm | £0 | £2,417 | £12,697 | £21,665 | £20,331 | £16,593 | £73,703 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

50 Mae’r taliadau hyn yn cynnwys taliadau y nodir yn glir eu bod wedi cael eu gwneud i Mrs Morgan mewn perthynas â chyflog a buddion eraill. Yn seiliedig ar y data uchod, yn fy marn i nid oedd hawl gan Mrs Morgan i gael 46% o’r taliadau a wnaeth mewn perthynas â chyflog a buddion.

51 Mae gennyf bryderon sylweddol ynghylch cyfreithlondeb £11,870 yr ymddengys ei fod yn ymwneud â thaliadau i Cyllid a Thollau EM a £28,802 sy’n cynnwys taliadau yr ymddengys eu bod daliadau i drydydd partïon ac nid i Mrs Morgan.

52 Wrth wneud y taliadau hyn, rhoddodd Mrs Morgan fanylion i mewn i gyfleuster bancio dros y we’r Cyngor nad ydynt yn adlewyrchu natur y trafodion eu hunain. Yn y ffordd yma, fe wnaeth Mrs Morgan gelu gwir natur y taliadau a wnaed i’w chyfrif a chreu cofnod cyfrifyddu ffug.

53 Yn **Atodiad 1** ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rwy'n nodi dadansoddiad manylach o'r taliadau hyn ac esboniadau ynglŷn â pham fy mod yn ystyried nad oedd hawl gytundebol gan Mrs Morgan na rheswm cyfreithlon i dalu'r arian yma iddi hi ei hun.

## Rwyf wedi methu â chadarnhau diffuantrwydd dau daliad â siec a wnaed gan y Cyngor ond rwy'n credu bod un taliad yn ymwneud â 'benthyciad' anghyfreithlon o £3,277 i Mrs Morgan

54 Yn ystod fy archwiliad, sylwais ar ddau daliad â siec ac iddynt werth mawr a wnaed gan y Cyngor yn ystod cyfnod Mrs Morgan yn y swydd fel Clerc. Mae'r taliadau hyn yn anarferol gan bod Mrs Morgan wedi gwneud y rhan fwyaf o daliadau eraill trwy drosglwyddiad banc. Er bod nifer fach o sieciau wedi'u dyroddi yn y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Gorffennaf 2013, mae gwerth y rhain yn fath ar y cyfan (llai na £250). Ni ddyroddwyd unrhyw sieciau pellach ar ôl mis Gorffennaf 2013. Y taliadau anarferol yw:

- ar 29 Mai 2013, fe wnaeth siec am £3,277 glirio banc y Cyngor; ac
- fe wnaeth ail siec am £1,040 glirio cyfrif banc y Cyngor ar 10 Mehefin 2014.

55 Oherwydd treigl amser, nid yw'r banc yn cadw copïau o sieciau sydd wedi clirio mwyach ac felly nid wyf yn gallu dod i gasgliad yn llawn ynghylch pwy oedd y talai ar gyfer y siec.

56 Pan ofynnwyd a oedd hi wedi cael benthyg arian gan y Cyngor, rhoddodd Mrs Morgan wybod i'r Cyngor 'ei bod hi wedi cael benthyg arian gan Ynysawdre ar un achlysur; fodd bynnag roedd [y cadeirydd blaenorol] yn gwybod y cyfan am hynny... fe ad-dalodd y benthyciad trwy wneud gwaith ychwanegol megis rhoi dŵr i'r blodau a gwneud gwaith cynnal a chadw o amgylch Ynysawdre... ar y cyfan cafodd fenthyg tua £3,000, yn lle cyflogi crefftwr neu lanhawr i'r Cyngor byddai'n gwneud y gwaith i gyd ei hun ac yn ad-dalu'r ddyled fel yna. Bu farw [y cadeirydd blaenorol] yn 2016'.

57 Dim ond un taliad o oddeutu £3,000 a ganfu fy archwiliad o gyfrif banc y Cyngor, sef y siec am £3,277 a gliriodd gyfrif banc y Cyngor ym mis Mai 2013. Ymddengys yn debygol i mi mai'r 'benthyciad' y cyfeiriodd Mrs Morgan ato yw hwn.

58 Ni chanfu fy archwiliad o gofnodion y Cyngor unrhyw gymeradwyaeth gan y Cyngor i roi benthyciad i Mrs Morgan. Er bod Mrs Morgan yn honni bod y cadeirydd blaenorol yn 'gwybod y cyfan am hynny', nid oedd unrhyw awdurdod gan y cadeirydd blaenorol i gymeradwyo benthyciad o'r fath. Gan bod y cadeirydd blaenorol wedi marw bellach, nid wyf yn gallu cadarnhau a oedd yn wir yn ymwybodol o'r 'benthyciad' hwn ac a wnaeth ei gymeradwyo.

59 Ni ddeil esboniad Mrs Morgan ei bod hi wedi ad-dalu'r 'benthyciad' trwy wneud gwaith ychwanegol mo'i archwilio. Trwy gydol 2013, 2014 a 2015, mae cofnodion

cyfrifon banc y Cyngor yn nodi taliadau niferus sy'n gysylltiedig â glanhau a chynnal a chadw a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan ac a ddisgrifiwyd fel 'Crefftwr' fel a nodir uchod.

60 Nid yw aelodau'n adnabod y naill na'r llall o'r taliadau hyn â siec ac nid oes cofnod yng nghofnodion y Cyngor o wneud taliadau o'r fath.

61 Yn fy marn i, mae'n debygol bod Mrs Morgan wedi gwneud y taliadau hyn â siec ei hun.

## Yn ychwanegol at drosglwyddiadau i'w chyfrif hi ei hun, fe wnaeth Mrs Morgan gyfres o drosglwyddiadau amhriodol rhwng Cyngor Cymuned Ynysawdre a Chyngor Cymuned Llangynwyd Ganol gyda throsglwyddiad net i Langynwyd Ganol o £6,000

62 Fel a nodwyd uchod, roedd Mrs Morgan yn Glerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yng Nghyngor Cymuned Llangynwyd Ganol a Chyngor Cymuned Ynysawdre. Yn y ddau gyngor, roedd Mrs Morgan yn rheoli'r cyfrifon banc a hi oedd yn gyfrifol am wneud yr holl drafodion o gyfrifon y ddau gyngor.

63 Yn 2017, fe drosglwyddodd Mrs Morgan arian rhwng y ddau gyngor ar dri achlysur ar wahân.

**Arddangosyn 5: Arian a drosglwyddwyd rhwng Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol a Chyngor Cymuned Ynysawdre**

Fe wnaeth Mrs Morgan dri throsglwyddiad â gwerth net o £6,000 o blaid Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol, rhwng cyfrifon a oedd yn cael eu dal gan Gynghorau Cymuned Llangynwyd Ganol ac Ynysawdre.

| | | CC Llangynwyd Ganol | CC Ynysawdre |
|---|---|---|---|
| 25 Ebrill 2016 | Trosglwyddiad o CC Llangynwyd Ganol i CC Ynysawdre | (£3,000) | £3,000 |
| 9 Mai 2016 | Trosglwyddiad o CC Ynysawdre i CC Llangynwyd Ganol | £4,000 | (£4,000) |
| 3 Ebrill 2017 | Trosglwyddiad o CC Ynysawdre i CC Llangynwyd Ganol | £5,000 | (£5,000) |
| | Derbyniad/(taliad) net | £6,000 | (£6,000) |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfriflenni banc

64 Rhoddodd Mrs Morgan wybod i'r heddlu, os cafodd trosglwyddiadau eu gwneud rhwng y ddau gyngor, yna 'nid oedd yn fwriadol, oherwydd pan fyddai'n mewngofnodi i'r cyfleuster bancio dros y we, byddai cyfrifon banc y ddau gyngor yn cael eu harddangos gyda'i gilydd gan eu bod i gyd gyda NatWest, er enghraifft os oedd rhaid iddi drosglwyddo arian o gyfrif cynilo Llangynwyd i mewn i'r cyfrif busnes efallai ei bod wedi trosglwyddo arian o gyfrif un cyngor i gyfrif cyngor arall ar ddamwain'.

65 Dywedodd Mrs Morgan wrth yr Heddlu hefyd, 'yn y gorffennol ei bod wedi talu bil ar ran Ynysawdre ac wedi'i gymryd o gyfrif Llangynwyd ar ddamwain; fodd bynnag, mae wedi trosglwyddo'r arian yn ôl, byddai hyn wedi bod yn ddamweiniol ac mae wedi ceisio'i gywiro trwy dalu'r arian yn ôl'.

66 Fodd bynnag, ni ddeil esboniad Mrs Morgan mo'i archwilio.

67 Fe wnaed y trosglwyddiadau rhwng cyfrifon HSBC y ddau gyngor ac nid y cyfrifon NatWest a sefydlodd Mrs Morgan yn ddiweddarach (gweler isod).

68 Yn union cyn y trosglwyddiadau rhwng y cynghorau ar 25 Ebrill 2016 a 3 Ebrill 2017, fe drosglwyddodd Mrs Morgan arian o gyfrif cadw'r cyngor a oedd yn talu i gyfrif cyfredol y cyngor hwnnw. Fe ddarparodd hyn yr arian yn y cyfrif cyfredol i wneud y trosglwyddiad i'r cyngor arall. Gan bod dau gam i'r broses hon, rwy'n ystyried ei bod yn hynod annhebygol mai gwall gweinyddol ydoedd.

69 Ar ben hynny, mae'n amlwg ar yr adeg y gwnaed y trosglwyddiadau ar 25 Ebrill 2016 a 3 Ebrill 2017 bod y cyngor a'u derbyniodd yn fyr o arian i wneud taliadau:

- yn union cyn i Mrs Morgan drosglwyddo £3,000 o gyfrif Llangynwyd Ganol i Ynysawdre ar 25 Ebrill 2016, roedd cyfrif cyfredol CC Ynysawdre yn y coch o £29 a dim ond £0.02 oedd yn ei gyfrif cadw. Felly, effaith y trosglwyddiad i Ynysawdre oedd sicrhau bod arian ar gael o gyfrif Ynysawdre.
- o 25 Ebrill 2016 tan 29 Ebrill 2016, pan gafodd Ynysawdre ei randaliad praesept cyntaf, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau iddi hi ei hun o gyfrif Ynysawdre a oedd yn gyfanswm o £2,453.
- yn union cyn i Mrs Morgan drosglwyddo £5,000 o gyfrif Ynysawdre i Langynwyd Ganol ar 3 Ebrill 2017, dim ond £4 oedd gan Langynwyd Ganol yn ei gyfrif cyfredol a dim ond £11 oedd ganddo yn ei gyfrif cadw. Felly, effaith y trosglwyddiad i Langynwyd Ganol oedd sicrhau bod arian ar gael o gyfrif Llangynwyd Ganol.
- yn dilyn trosglwyddo £5,000 o Ynysawdre i Langynwyd Ganol ar 3 Ebrill 2017, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau iddi hi ei hun o Langynwyd Ganol a oedd yn gyfanswm o £3,008 cyn i Langynwyd Ganol gael ei randaliad praesept cyntaf ar ddiwedd mis Ebrill.

70 Ymddengys i mi fod yr arian wedi cael ei drosglwyddo o un cyngor i'r llall yn syml i alluogi Mrs Morgan i wneud taliadau iddi hi ei hun o'r cyfrif a fyddai'n derbyn yr arian a drosglwyddwyd.

## Ym mis Ebrill 2017 fe sefydlodd Mrs Morgan gyfrifon banc newydd heb yn wybod i'r Cyngor a heb gael awdurdodiad ganddo ac fe'i sefydlodd ei hun fel unig lofnodwr y cyfrifon

71 Tan fis Ebrill 2017, roedd gan y Cyngor ddau gyfrif ar agor gyda HSBC, sef cyfrif cyfredol a chyfrif cadw. Ym mis Ebrill 2017, agorodd Mrs Morgan ddau gyfrif newydd (cyfrif cyfredol a chyfrif cadw) ym manc y NatWest.

72 Yn ôl honiad Mrs Morgan, yn dilyn cau cangen HSBC ym Maesteg, sef cangen leol Ynysawdre, fe benderfynodd y Cyngor agor cyfrifon newydd gyda NatWest. Dywedodd wrth Heddlu De Cymru fod y Cyngor wedi rhoi cymeradwyaeth i drosglwyddo'r cyfrifon.

73 Mewn cyfweliad, dywedodd aelodau'r Cyngor nad oedd y mater hwn wedi cael ei drafod yn un o gyfarfodydd y Cyngor ac nad oeddent yn ymwybodol bod Mrs Morgan wedi agor y cyfrifon.

74 Rwyf wedi archwilio cofnodion y Cyngor, a baratowyd gan Mrs Morgan fel Clerc, ac ni allaf ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad at awdurdodi Mrs Morgan i agor cyfrifon ym manc y NatWest.

75 Mae newid banc y Cyngor yn fater arwyddocaol a ddylai fod wedi cael ei drafod gyda'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo yn fy marn i. Mae hyn yn bwysicach byth o ystyried nad oedd unrhyw aelodau'n llofnodwyr ar gyfer y cyfrifon banc. Pe bai trafodaethau o'r fath wedi digwydd yna dylai'r penderfyniad i newid banciau fod wedi cael ei gofnodi yng nghofnodion y Cyngor.

76 Felly, nid wyf yn ystyried bod esboniad Mrs Morgan yn gredadwy. Ymddengys i mi fod Mrs Morgan wedi gweithredu heb yn wybod i'r Cyngor a heb ei gydsyniad trwy agor cyfrifon newydd a throsglwyddo balansau'r Cyngor i'r cyfrifon newydd.

# Er mai ei Glerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol blaenorol, Mrs Morgan, sy’n bennaf gyfrifol am golli £73,703 a dalwyd i Mrs Morgan a £6,000 a drosglwyddwyd i Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol, fe wnaeth methiant y Cyngor i arfer y safonau rheolaeth ariannol a llywodraethu gofynnol trwy gydol y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Awst 2017 alluogi Mrs Morgan i wneud y taliadau amhriodol hyn iddi hi ei hun

## Y Cyngor sy’n gyfrifol am sicrhau bod ganddo system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol

77 Proses neu weithdrefn a roddir ar waith i warchod asedau, hybu gweithrediadau effeithiol, a sicrhau arferion cyfrifyddu a chadw cofnodion cywir yw rheolaeth fewnol. Mae system rheolaeth fewnol effeithiol yn ymgorffori cyfres o rwystrau a gwrthbwysau ac yn helpu i atal a chanfod gwallau ac achosion o afreoleidd-dra.

78 Mae Rheoliad 5 - Cyfrifoldeb am reoli mewnol a rheolaeth ariannol yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi bod rhaid i’r Cyngor sicrhau bod ganddo system rheolaeth fewnol gadarn sy’n hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac sy’n cynnwys rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

## Methodd y Cyngor â sefydlu rheolaethau mewnol allweddol a ddylai fod wedi atal Mrs Morgan rhag gwneud taliadau anghyfreithlon iddi hi ei hun neu gyfyngu ar ei gallu i wneud hynny

79 Ar gyfer cynghorau cymuned mae chwe gweithdrefn rheolaeth fewnol allweddol sy’n gwneud system rheolaeth fewnol yn effeithiol:

- Gwahanu dyletswyddau
- Rheolaethau ar fynediad
- Awdurdod i gymeradwyo
- Archwilio mewnol
- Cysoniadau cyfnodol
- Adrodd a monitro ariannol

80 Mae **Arddangosyn 6** yn crynhoi lle’r oedd trefniadau’r Cyngor yn ddiffygiol yn y meysydd hyn.

**Arddangosyn 6: Diffygion yn system rheolaeth fewnol y Cyngor**

Roedd gweithdrefnau'r Cyngor yn wan ym mhob maes o ran rheolaeth fewnol.

| Gweithdrefnau allweddol | Canfyddiad archwilio a'r effaith |
|---|---|
| **Gwahanu dyletswyddau** | Un o'r agweddau pwysicaf ar system rheolaeth fewnol effeithiol yw gwahanu dyletswyddau.<br>Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o gynghorau bychain, dim ond un swyddog â chyfrifoldeb am weinyddu ei faterion yr oedd y Cyngor yn ei gyflogi. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Cyngor i wahanu dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'i faterion ariannol, e.e. trwy fod ag un swyddog yn sefydlu taliadau a swyddog arall yn cyflawni'r gweithgareddau rhoi cyfrif. Roedd hi felly'n hanfodol i'r Cyngor sefydlu rheolaethau eraill i ddiogelu ei faterion ariannol.<br>Methodd y Cyngor â chydnabod bod trefniant y Cyngor yn cynyddu'r risg o golledion oherwydd camddefnydd.<br>Mae maint bach y Cyngor yn golygu bod rhaid i aelodau chwarae rhan weithredol yn y system rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, fe ganiataodd y Cyngor i'w Glerc gymryd cyfrifoldeb llwyr am ei faterion ariannol. |
| **Rheolaethau ar fynediad** | Y Clerc blaenorol oedd yr unig un â mynediad at gyfrif banc y Cyngor. Roedd hyn yn golygu nad oedd aelodau'n gallu cael mynediad at y cyfrifon banc ar-lein a chanfod bod y Clerc blaenorol yn gwneud taliadau amhriodol iddi hi ei hun. |

| Gweithdrefnau allweddol | Canfyddiad archwilio a'r effaith |
|---|---|
| **Awdurdod i gymeradwyo** | Roedd y trefniadau bancio ar-lein a sefydlwyd gan y Clerc blaenorol yn golygu ei bod hi'n gallu sefydlu a chwblhau taliadau heb unrhyw fath o graffu.<br>I gynghorau bychain fel Ynysawdre, arfer da fyddai sefydlu trefniadau lle mae'r Clerc yn gallu sefydlu taliad ond bod y taliad ddim yn cael ei wneud nes ei fod wedi cael ei awdurdodi gan berson arall – aelod, fel arfer. Byddai'n ofynnol i'r aelod wirio bod y taliad yn un diledryw cyn ei fod yn cael ei gymeradwyo a'i gwblhau.<br>Un o'r rheolaethau allweddol i gynghorau llai yw bod y Cyngor yn cael ac yn cymeradwyo rhestr o'r holl daliadau a wnaed, gan gynnwys darparu anfonebau ategol a.y.b. Gall y rhestr fod yn gofyn am gymeradwyaeth i wneud taliadau neu'n gofnod o daliadau a wnaed ers y cyfarfod diwethaf.<br>Dynododd yr Aelodau na wnaeth Mrs Morgan ddarparu manylion llawn yr holl drafodion ac na welsant unrhyw anfonebau ar gyfer unrhyw daliadau. Mae'r cofnodion hefyd yn ei gwneud yn glir nad oedd materion ariannol y Cyngor wastad yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor. |
| **Archwilio mewnol** | Er bod y Cyngor yn credu bod ganddo archwilydd mewnol, nid oedd byth yn mynd mor bell â chael cyswllt â'r archwilydd. Fel a nodwyd yn **Atodiad 1**, fy nghred i yw na wnaeth Mrs Morgan sicrhau gwasanaeth archwilydd mewnol ond ei bod yn syml wedi cwblhau'r adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ei hun, gan ddarparu sicrwydd ffug ar gyfer y Cyngor.<br>Trwy ganiatáu i'w Glerc ganfod a phenodi archwilydd mewnol, methodd y Cyngor â chymryd camau digonol i sicrhau bod archwilydd yn annibynnol mewn modd priodol neu, yn wir, yn cael ei benodi hyd yn oed. Ni chymerodd y Cyngor unrhyw gamau i wirio pwy oedd yr archwilydd nac i gychwyn unrhyw gyswllt rhwng y Cyngor a'r archwilydd.<br>Pe bai'r Cyngor wedi mynnu ei fod yn gwneud y penodiad ei hun, gallai fod wedi cyfweld â darpar ymgeiswyr a sicrhau bod yr archwilydd yn ddiledryw. |

| Gweithdrefnau allweddol | Canfyddiad archwilio a’r effaith |
|---|---|
| **Cysoniadau cyfnodol** | Dylai cysoniadau banc cyfnodol gael eu cynnal rhwng llyfr arian y Cyngor a’i gyfrif banc. Diben y cysoniad yw darparu sicrwydd ynghylch cyflawnder a chywirdeb y trafodion a gofnodwyd yn y llyfr arian. Dylai’r cysoniadau hyn gael eu hadolygu o ran cywirdeb gan rywun heblaw’r paratöwr. Nid oes tystiolaeth ar gael i awgrymu bod Mrs Morgan wedi paratoi cysoniadau banc rheolaidd.<br>Mewn cynghorau llai, mae hefyd yn bwysig cysoni taliadau a gymeradwywyd gan y Cyngor â thaliadau a gofnodwyd yn y llyfr arian. Eto, dylai hyn gael ei gwblhau gan aelodau yn hytrach na’r Clerc. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod aelodau erioed wedi edrych ar y cofnodion cyfrifyddu mewn unrhyw fanylder. Pe baent wedi gwneud hynny, mae’n debygol y byddai’r Cyngor wedi adnabod y taliadau amhriodol a wnaed gan Mrs Morgan ar adeg gynnar. |
| **Adrodd a monitro ariannol** | Mae’n bwysig bod y Cyngor yn deall sut y mae’n gwario ei arian a sut y mae hyn yn cymharu â’i gyllideb.<br>Ymddengys fod Mrs Morgan wedi bod yn cyflwyno rhyw fath o wybodaeth ariannol i’r Cyngor yn rheolaidd. Er enghraifft, mae cofnodion Ionawr 2016 yn nodi ‘Cytunwyd ar yr holl gyfrifon.’ Mae cofnodion mis Gorffennaf 2016 yn nodi ‘Cytunwyd yn unfrydol ar yr holl gyfrifon.’ Yn anffodus, nid oes unrhyw gofnodion eraill ar gael i gadarnhau pa wybodaeth gafodd ei chyflwyno i’r Cyngor i ategu cytundeb cynghorwyr ar y cyfrifon.<br>Mae Cynghorwyr wedi ei gwneud yn glir mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig yr oedd Mrs Morgan yn ei darparu. Pan gyflwynwyd copïau o’r cyfriflenni banc iddynt, dywedodd Cynghorwyr nad oeddent yn adnabod y trafodion a oedd wedi’u cofnodi ynddynt.<br>Fe wnaeth Cynghorwyr hi’n glir mai dim ond yn fras yr oeddent yn craffu ar yr wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno gan Mrs Morgan.<br>Mae’n debygol y byddai mwy o graffu ar yr wybodaeth ariannol a ddarparwyd gan Mrs Morgan wedi arwain at adnabod y taliadau amhriodol yn llawer cynharach. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o reolaethau mewnol yn y Cyngor

81 Ymddengys fod y Cyngor wedi bod yn dibynnu ar ei Glerc i gyflawni ei chyfrifoldebau'n briodol heb unrhyw fath o oruchwyliaeth ystyrlon. Yn y bôn, fe wnaeth ei fethiant i gyflwyno system rheolaeth fewnol gadarn ganiatáu i Mrs Morgan wneud taliadau iddi hi ei hun nad oedd hawl ganddi i'w derbyn.

# Atodiad 1

## Dadansoddiad o daliadau anghyfreithlon a wnaed gan Mrs Morgan

82 Mae fy archwiliad wedi canfod bod Mrs Morgan wedi gwneud taliadau yr oedd eu cyfanswm yn £73,703 i'w chyfrifon banc hi ei hun nad oedd hawl gytundebol ganddi i'w derbyn yn fy nhyb i.

**Arddangosyn 7: taliadau gormodol a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan**

Fel a nodwyd yn **Arddangosyn 4**, rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Awst 2017, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau gormodol o gyfrif banc Cyngor Cymuned Ynysawdre i'w chyfrifon banc hi ei hun yr oedd eu cyfanswm yn £73,703.

| Diben honedig | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog a buddion[5] | £0 | £2,320 | £7,244 | £10,325 | £6,355 | £6,788 | £33,032 |
| CaThEM[6] | £0 | £0 | £1,618 | £1,725 | £6,250 | £2,277 | £11,870 |
| Taliadau eraill[7] | £0 | £97 | £3,835 | £9,615 | £7,727 | £7,528 | £28,802 |
| Cyfanswm | £0 | £2,417 | £12,697 | £21,665 | £20,331 | £16,593 | £73,703 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

83 Mae'r adrannau canlynol o'r Atodiad hwn yn darparu dadansoddiad ac eglurhad pellach o'r taliadau a wnaed gan Mrs Morgan.

[5] Darperir manylion pellach yn **Arddangosyn 8** a **pharagraffau 82 i 118**

[6] Darperir manylion pellach yn **Arddangosyn 13** a **pharagraffau 119 i 134**

[7] Darperir manylion pellach yn **Arddangosyn 14** a **pharagraffau 135 i 159**.

## Er gwaethaf ei honiad nad oedd contract cyflogaeth ganddi, yn ystod ei chyfnod yn y swydd fel Clerc talodd Mrs Morgan gyflog gormodol a buddion eraill iddi hi ei hun yr oedd eu cyfanswm yn £33,032 ac nad oedd hawl ganddi i'w derbyn dan ei chontract cyflogaeth

**Arddangosyn 8: cyflog gormodol a thaliadau eraill**

Talodd Mrs Morgan gyfanswm o £33,032 iddi hi ei hun mewn cyflog gormodol, addasiadau eraill trwy'r gyflogres a lwfansau anghytundebol yn ystod ei hamser fel Clerc.

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog[8] | £0 | £983 | £3,837 | £5,625 | £2,365 | £5,300 | £18,109 |
| Addasiadau trwy'r gyflogres[9] | £0 | £700 | £2,313 | £3,191 | £3,004 | £1,000 | £10,208 |
| Lwfansau anghytundebol[10] | £0 | £637 | £1,094 | £1,509 | £986 | £488 | £4,714 |
| Cyfanswm | £0 | £2,320 | £7,244 | £10,325 | £6,355 | £6,788 | £33,031 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

### Er iddi ddweud wrth Heddlu De Cymru nad oedd contract cyflogaeth ganddi, mae contract heb ei lofnodi wedi cael ei ddarparu ar fy nghyfer sy'n nodi telerau ac amodau ei chyflogaeth gan y Cyngor ac sy'n gyson â thaliadau a wnaed i Mrs Morgan yn ystod blwyddyn gyntaf ei chyflogaeth

84 Mae'r Clerc, fel swyddog i'r Cyngor, yn gyflogai i'r Cyngor. Mae gan unrhyw un sy'n gweithio i gyflogwr am dâl neu gyflog rheolaidd gontract cyflogaeth yn awtomatig. Er nad oes rhaid i'r contract cyflawn fod yn ysgrifenedig, rhaid i'r cyflogai gael o leiaf ddatganiad ysgrifenedig o delerau'r gyflogaeth.

85 Mae contractau cyflogaeth yn darparu eglurder ynghylch rôl a statws y Clerc a'r trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y swydd. Felly, mae'n arfer da bod gan holl gyflogeion y Cyngor gontract cyflogaeth ysgrifenedig.

[8] Darperir dadansoddiad pellach yn **Arddangosyn 9**
[9] Darperir dadansoddiad pellach yn **Arddangosyn 10**
[10] Darperir dadansoddiad pellach yn **Arddangosyn 12**

86 Yn ei datganiad wrth Heddlu De Cymru, a roddwyd yn ystod eu hymchwiliad i'r achosion o afreoleidd-dra y rhoddwyd gwybod iddynt amdanynt gan y Cyngor, dywedodd Mrs Morgan, er ei bod yn cael ei chyflogi'n llawn gan y Cyngor, na wnaeth hi erioed lofnodi contract cyflogaeth.

87 Yn ystod fy archwiliad, rhoddwyd copi i mi o gontract cyflogaeth heb ei lofnodi a ganfuwyd mewn papurau a adawyd yn swyddfa'r Cyngor. Nid wyf wedi gweld unrhyw gyfeiriad yng nghofnodion y Cyngor at gontract cyflogaeth.

88 Fodd bynnag, er bod y contract heb ei lofnodi, mae'n cyfeirio at y ffaith mai £5,500 oedd cyflog Mrs Morgan pan gafodd ei phenodi. Ni chyfeirir at unrhyw lwfansau eraill.

89 Rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013, talodd Mrs Morgan gyflog misol o £458.33 iddi hi ei hun, a oedd yn 1/12 o gyflog blynyddol o £5,500.

90 Gan gymryd y dystiolaeth hon i ystyriaeth, nid wyf yn ystyried bod haeriad Mrs Morgan wrth Heddlu De Cymru na wnaeth hi erioed lofnodi contract cyflogaeth yn ddatganiad credadwy.

91 Rwyf wedi fy argyhoeddi mai copi heb ei lofnodi o gontract cyflogaeth gwreiddiol Mrs Morgan yw'r contract a ddarparwyd ar fy nghyfer i.

## Mae contract cyflogaeth Mrs Morgan yn nodi telerau allweddol ei chyflogaeth gan gynnwys y darpariaethau a wnaed ar gyfer ei chydnabyddiaeth ariannol, gan gynnwys adolygiadau blynyddol o gyflog

92 Mae contract cyflogaeth Mrs Morgan yn gwneud y darpariaethau canlynol mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol:

- 4.1 O ran oriau gwaith byddai Mrs Morgan yn gweithio 10 awr yr wythnos.
- 5.1 Penodwyd Mrs Morgan i gyflog sefydlog o £5,500.
- 5.1 Telir y cyflog yn fisol ar y 4ydd o bob mis.
- 5.2 Byddai'r Cyngor yn adolygu cyflog Mrs Morgan o bryd i'w gilydd, er na nodir pa mor aml y byddai adolygiad o'r fath yn digwydd.
- 6.1 Roedd gwyliau blynyddol yn 28 diwrnod y flwyddyn yn ôl cyfran yn seiliedig ar oriau gwaith Mrs Morgan. Yn ymarferol roedd hyn yn golygu wyth diwrnod y flwyddyn.

## Rhwng 2013 a 2017, talodd Mrs Morgan gyfanswm o £18,109 yn ormod o gyflog iddi hi ei hun

93 Trwy gydol ei chyflogaeth fel Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor talodd Mrs Morgan niferoedd gormodol o daliadau cyflog iddi hi ei hun. Ar y cyfan, er mai dim ond am 62 mis y bu'n gweithio i'r Cyngor, talodd 86 mis o gyflog iddi hi ei hun. Mae **Arddangosyn 9** yn nodi cyfanswm gwerth a nifer taliadau cyflog a dalodd Mrs Morgan iddi hi ei hun tra'r oedd yn cael ei chyflogi gan y Cyngor.

**Arddangosyn 9: taliadau cyflog gormodol a wnaed gan Mrs Morgan**

Rhwng 2013 a mis Medi 2017, talodd Mrs Morgan gyfanswm o £18,109 yn ormod o gyflog iddi hi ei hun.

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog a dalwyd yn y flwyddyn | £4,125 | £7,282 | £11,082 | £13,625 | £11,365 | £9,375 |
| Nifer y taliadau cyflog a wnaed | 9 | 13 | 17 | 20 | 15 | 12 |
| Misoedd y cafodd ei chyflogi gan y Cyngor | 9 | 12 | 12 | 12 | 12 | 5 |
| Cyflog a dalwyd ym mis Ebrill bob blwyddyn | £458.33[11] | £525.00[12] | £603.75 | £666.67 | £750.00 | £815.00[13] |
| Codiad cyflog | Amh | 15% | 15% | 10% | 12% | 9% |
| Amcangyfrif o'r cyflog a oedd yn ddyledus am y flwyddyn[14] | £4,125 | £6,300 | £7,245 | £8,000 | £9,000 | £4,075 |
| Taliad gormodol | £0 | £982 | £3,837 | £5,625 | £2,365 | £5,300 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

94 Er bod aelodau'r Cyngor wedi cadarnhau bod cyflog Mrs Morgan wedi cael ei adolygu o bryd i'w gilydd, nid oes tystiolaeth yng nghofnodion y Cyngor o unrhyw gymeradwyaeth gan y Cyngor i godiadau cyflog. Nid yw'r cofnodion a baratowyd gan Mrs Morgan yn darparu unrhyw fanylion mewn perthynas â'i chyflog. Ar ben hynny, nid oes gan y Cyngor unrhyw gofnodion cyflogres o gyfnod Mrs Morgan yn y swydd fel Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol.

95 Felly mae fy nadansoddiad yn **Arddangosyn 9** yn seiliedig ar y dybiaeth mai ei chyflog cymeradwy yw'r taliad cyflog a gofnodwyd gan Mrs Morgan ym mis Ebrill

[11] Mae'r taliad cyflog hwn yn unol â'r contract cyflogaeth heb ei lofnodi a ddarparwyd ar fy nghyfer i.

[12] Ar gyfer y cyfnod o 2013-14 ymlaen, rwyf wedi tybio mai'r taliad cyflog ym mis Ebrill bob blwyddyn oedd y cyflog y cytunwyd arno gyda'r Cyngor.

[13] £725 yw'r cyflog net ar gyfer mis Ebrill 2017 a gyfrifwyd gan y cyfrifwyr y sicrhawyd eu gwasanaeth gan y Cyngor i baratoi cyfrifiadau'r gyflogres. Talodd Mrs Morgan £815 iddi hi ei hun.

[14] Wedi'i gyfrifo fel y cyflog a dalwyd ym mis Ebrill x nifer y misoedd y cafodd ei chyflogi yn y flwyddyn. Dyma'r cyflog am y flwyddyn gyfan yr oedd gan Mrs Morgan hawl i'w dderbyn.

yn mhob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae aelodau'r Cyngor wedi dweud nad ydynt yn adnabod y symiau a dalwyd fel ei chyflog cymeradwy. Mae'r codiadau cyflog blynyddol i'w gweld yn ormodol ac ymhell uwchlaw chwyddiant cyflogau cyffredinol a normau codiadau cyflog ar gyfer y sector cynghorau cymuned.

96 Dywedodd Mrs Morgan wrth yr Heddlu 'bod ei chyflog wedi cael ei gytuno gan y cadeirydd sydd wedi marw erbyn hyn, os oes unrhyw anghysonderau yna nid yw'r rhain yn fwriadol a damweiniol oeddent'.

97 Nid wyf yn ystyried bod eglurhad Mrs Morgan yn gredadwy ac ni ddeil mo'i archwilio:

- nid oedd gan gadeirydd y Cyngor unrhyw awdurdod i gytuno ar gyflog Mrs Morgan heb atgyfeirio'r mater at y Cyngor llawn;
- ar 26 Mai 2015, talodd Mrs Morgan ei chyflog ar gyfer mis Mai 2015 iddi hi ei hun ddwywaith;
- Talodd Mrs Morgan ei chyflog misol iddi hi ei hun ar 22 Medi, 27 Medi a 28 Medi 2015;
- ym mis Hydref 2015, talwyd ei chyflog ar 21 Hydref a 28 Hydref;
- ym mis Tachwedd 2015, talwyd ei chyflog ar 9 Tachwedd, 29 Tachwedd a 30 Tachwedd;
- talwyd cyflog Mrs Morgan ar gyfer mis Ionawr 2016 ar 25 Ionawr ac eto ar 28 Ionawr 2016;
- talwyd cyflog Mrs Morgan ar gyfer mis Mawrth 2016 ar 19 Mawrth 2016, ar 25 Ebrill 2016 ac eto ar 29 Ebrill 2016; a hefyd
- talodd Mrs Morgan ei chyflog ar gyfer mis Ebrill 2017 ar 3 Ebrill, 25 Ebrill a 28 Ebrill 2017.

98 Rwy'n ystyried ei bod yn hynod annhebygol y gallai Mrs Morgan fod wedi gwneud cymaint â hyn o daliadau dyblyg mewn camgymeriad.

## Yn ogystal â'i chyflog sylfaenol, talodd Mrs Morgan daliadau goramser, bonysau anghytundebol ac ôl-gyflog ac addasiadau eraill trwy'r gyflogres iddi hi ei hun yr oedd eu cyfanswm yn £10,208

**Arddangosyn 10: taliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gyflogres a wnaed gan Mrs Morgan**

Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Awst 2017, fe wnaeth Mrs Morgan amryw daliadau sy'n gysylltiedig â'r gyflogres iddi hi ei hun yr oedd eu cyfanswm yn £10,208

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Goramser | £0 | £0 | £1,252 | £1,326 | £1,504 | £0 | £4,081 |
| Taliadau bonws | £0 | £250 | £500 | £1,250 | £1,500 | £1,000 | £4,500 |
| Ôl-gyflog | £0 | £279 | £21 | £462 | £0 | £0 | £762 |
| Addasiadau eraill trwy'r gyflogres | £0 | £171 | £540 | £154 | £0 | £0 | £865 |
| Cyfanswm taliadau gormodol | £0 | £700 | £2,313 | £3,191 | £3,004 | £1,000 | £10,208 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

### Taliadau goramser

99 Trwy 2014-15, talodd Mrs Morgan oramser iddi hi ei hun ar naw achlysur. Roedd cyfanswm taliadau unigol yn £251.68, £153.85 a £76.92. Yn 2015-16, talodd Mrs Morgan oramser iddi hi ei hun ar saith achlysur gan gynnwys taliadau o £461.94 ym mis Hydref 2014 a £300 ym mis Mawrth 2015. Yn 2016-17, fe wnaeth Mrs Morgan dri thaliad o £519.23, £259.63 a £725.00.

100 Er ei bod yn rhesymol i daliad goramser gael ei wneud i ddigolledu am oriau ychwanegol a weithiwyd dros yr oriau a gytundebwyd, ni chanfu fy archwiliad o gofnodion y Cyngor a chofnodion tebyg o'r fath a oedd ar gael yn ystod yr archwiliad unrhyw ystyriaeth nac awdurdodiad gan y Cyngor ar gyfer unrhyw daliadau goramser nac ar gyfer unrhyw waith ychwanegol a wnaed gan Mrs Morgan. O ystyried y symiau a dalwyd yn berthynol i gyflog Mrs Morgan, byddwn wedi disgwyl gweld rhyw gyfeiriad at unrhyw waith ychwanegol yr oedd yn ei wneud yng nghofnodion y Cyngor.

## Taliadau bonws

101 Mewn perthynas â thaliadau bonws, nid yw cofnodion y Cyngor yn cyfeirio at unrhyw daliadau bonws a oedd i'w gwneud i Mrs Morgan. Nid yw contract cyflogaeth Mrs Morgan yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer talu bonysau. Nid oedd cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw daliadau bonws a oedd yn cael eu gwneud i Mrs Morgan.

## Ôl-gyflog

102 Yn ogystal â'r taliadau a gofnodwyd fel cyflog, bob blwyddyn, talodd Mrs Morgan symiau ychwanegol iddi hi ei hun, a gofnodwyd fel ôl-gyflog neu addasiadau trwy'r gyflogres. Ymddengys fod y symiau hyn yn ymwneud ag ôl-ddyddio codiadau cyflog lluosog.

103 Canfu fy archwiliad fod Mrs Morgan wedi cynyddu ei chyflog mewn modd a oedd yn anghyson â'i chontract cyflogaeth.

**Arddangosyn 11: codiadau cyflog wedi'u hôl-ddyddio**

Yn 2013-14 a 2014-15, cynyddodd Mrs Morgan ei chyflog ac fe ôl-ddyddiodd y codiadau i gynnwys sawl mis blaenorol.

| | Gwerth y taliad |
|---|---|
| Cyflog misol rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013 | £458.33 |
| Taliad cyflog misol rhwng mis Ebrill a mis Awst 2013 | £525.00 |
| Taliad cyflog misol rhwng mis Medi 2013 a mis Ionawr 2014 | £575.00 |
| Taliad 'ôl-gyflog' a wnaed ar 3 Medi 2012[15] | £250.00 |
| Taliad cyflog misol rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2014 | £603.75 |
| Taliad 'addasu ar gyfer codiad cyflog' a wnaed ar 11 Chwefror 2014[16] | £28.75 |
| Cyflog misol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2014 | £603.75 |
| Taliad 'cywiro ar gyfer codiad cyflog' a wnaed ar 25 Mehefin 2014 | £21.25 |
| Cyflog misol rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2015 | £666.67 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfriflenni banc

[15] Pum mis o gyflog ychwanegol o £50 am y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Awst 2013.
[16] Un mis o gynnydd ar gyfer mis Ionawr 2014.

104 Fel a nodwyd uchod, rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mawrth 2013, talodd Mrs Morgan gyflog misol o £458.33 iddi hi ei hun, yn unol â'i chontract cyflogaeth.

105 Dan ei chontract cyflogaeth, roedd ganddi hawl i adolygiad 'cyfnodol' o'i chyflog. O fis Ebrill 2013, talodd Mrs Morgan gyflog misol o £525 iddi hi ei hun, sy'n awgrymu bod ei chyflog wedi cael ei gynyddu ym mis Ebrill 2014. Fodd bynnag, o fis Medi 2013, talodd gyflog misol o £575 iddi hi ei hun ac fe ôl-ddyddiodd hwn i fis Ebrill 2013 gyda thaliad o £250 ym mis Medi 2013. Roedd y cynnydd hwn yn golygu bod Mrs Morgan wedi cael cynnydd o 25% yn ei chyflog misol o fis Ebrill 2013 o'i gymharu â'i chyflog ar gyfer mis Mawrth 2013.

106 Fe gynyddodd Mrs Morgan ei chyflog misol ymhellach ym mis Chwefror 2014, gan gynyddu ei chyflog misol i £603.75 ac fe ôl-ddyddiodd hyn i fis Ionawr 2014 gyda thaliad o £28.75.

107 Mae hyn yn golygu bod Mrs Morgan wedi cynyddu ei chyflog misol dair gwaith yn ystod 2013-14.

108 Nid yw cofnodion y Cyngor yn nodi unrhyw drafodaeth ynglŷn â chyflog Mrs Morgan nac yn cyfeirio at unrhyw addasiadau eraill trwy'r gyflogres. Ar ben hynny, nid oedd aelodau'r Cyngor yn cydnabod bod cyflog Mrs Morgan wedi cael ei gynyddu dair gwaith mewn un flwyddyn heb gymeradwyaeth y Cyngor. Fodd bynnag, nid oedd aelodau'n gallu cofio pa gyflog y cytunwyd arno bob blwyddyn.

109 Yn fy marn i, nid oedd hawl gan Mrs Morgan i gael:

- Taliadau cyflog uwch rhwng mis Medi 2013 a mis Chwefror 2014
- Taliadau 'ôl-gyflog' canlyniadol ym mis Medi 2012 a mis Chwefror 2014
- Taliad 'cywiro ar gyfer codiad cyflog' ym mis Mehefin 2014

## Taliadau eraill

110 Ar 18 Rhagfyr 2013, talodd Mrs Morgan £153.85 iddi hi ei hun a gofnodwyd fel 'Addasiad ar gyfer Gwyliau'. Ar 18 Ebrill 2015, talodd Mrs Morgan £153.85 arall iddi hi ei hun, gan gofnodi'r taliad y tro hwn fel 'Lwfans Gwyliau Diwedd Blwyddyn Cyflog NKM'.

111 Ymddengys fod y taliadau hyn ar gyfer gwyliau nas cymerwyd. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y Cyngor yn nodi cymeradwyaeth i unrhyw un o'r taliadau hyn.

112 Ar 19 Mai 22014, talodd Mrs Morgan £540 iddi hi ei hun a gofnodwyd fel 'Tandaliad 2013'. Fodd bynnag, cafodd Mrs Morgan ei chyflog llawn ar gyfer 2012-13 a 13 taliad cyflog misol yn ystod 2013-14 ynghyd â chodiad cyflog o fwy na 25%. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Mrs Morgan wedi cael rhy ychydig o gyflog yn ystod 2013.

113 Nid yw cofnodion y Cyngor yn cynnwys cofnod o unrhyw awdurdodiad i wneud y taliadau hyn. Mae aelodau wedi cadarnhau nad ydynt yn adnabod unrhyw daliadau goramser, bonysau, ôl-gyflog nac addasiadau eraill trwy'r gyflogres.

## Yn ychwanegol at daliadau cyflog gormodol, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau o £4,714 ar gyfer lwfansau a buddion anghytundebol

114 Canfu fy archwiliad o gyfriflenni banc y Cyngor fod Mrs Morgan wedi gwneud taliadau misol iddi hi ei hun ar gyfer lwfansau am weithio gartref ac am ddefnyddio'r ffôn a'r rhyngrwyd. Mae **Arddangosyn 8** yn nodi bod Mrs Morgan wedi talu cyfanswm o £4,714 iddi hi ei hun mewn perthynas â'r lwfansau hyn.

**Arddangosyn 12: taliadau a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan**

Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Awst 2017, talodd Mrs Morgan gyfanswm o £4,714 iddi hi ei hun a oedd yn gysylltiedig â lwfansau am ddefnyddio swyddfa yn ei chartref a'r ffôn/rhyngrwyd.

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lwfans swyddfa yn y cartref | £0 | £605 | £815 | £975 | £585 | £455 | £3,435 |
| Ffôn a'r rhyngrwyd | £0 | £32 | £280 | £534 | £400 | £33 | £1,279 |
| Cyfanswm | £0 | £637 | £1,095 | £1,509 | £985 | £488 | £4,714 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

115 Nid yw contract cyflogaeth Mrs Morgan yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer yr eitemau canlynol:

- Lwfans swyddfa yn y cartref
- Lwfansau ffôn

116 Telir lwfansau swyddfa yn y cartref fel rheol lle mae'n ofynnol i Glerc y Cyngor weithio gartref. Mae'r lwfans wedi'i fwriadu i dalu costau ychwanegol a ysgwyddir gan y Clerc am weithio gartref. Mae'r lwfansau hyn yn drethadwy os cânt eu talu uwchlaw trothwy a bennwyd gan Cyllid a Thollau EM (CaThEM). Ni wnaeth Mrs Morgan, a hithau'n gweithredu fel Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor, hysbysu CaThEM am y taliadau trethadwy hyn.

117 Yn dilyn ei phenodi ym mis Gorffennaf 2012, ni wnaeth Mrs Morgan unrhyw daliadau mewn perthynas â'r lwfansau hyn tan 9 Ionawr 2014. Mae hyn yn gyson â'i chontract cyflogaeth. Ar 9 Ionawr 2014, fe wnaeth Mrs Morgan dri thrafodiad ar wahân o £165 yr un am lwfans swyddfa yn y cartref ac yna £16.36 am y ffôn a'r rhyngrwyd.

118 Rhwng mis Chwefror 2014 a mis Mehefin 2014, talodd Mrs Morgan lwfans swyddfa yn y cartref misol o £55 iddi hi ei hun. O fis Gorffennaf 2014, cynyddodd y lwfans yma i £65 y mis. Fe wnaed taliadau mewn perthynas â ffôn a rhyngrwyd Mrs Morgan bob hyn a hyn ar adegau afreolaidd ac am symiau afreolaidd.

119 Ni chanfu fy archwiliad o gofnodion y Cyngor unrhyw gymeradwyaeth i'r taliadau hyn i Mrs Morgan.

120 Yn niffyg unrhyw hawl gytundebol neu dystiolaeth o gymeradwyaeth gan y Cyngor, yn fy marn i fe dalodd Mrs Morgan £4,714 iddi hi ei hun nad oedd ganddi unrhyw hawl gyfreithiol i'w gael.

## Er bod cyfriflenni banc y Cyngor yn cynnwys cofnodion o gyfanswm taliadau o £11,870 sy'n gysylltiedig â Cyllid a Thollau EM, mewn gwirionedd cafodd y taliadau hyn eu talu'n uniongyrchol i gyfrif banc Mrs Morgan

121 Mae cyfriflenni banc y Cyngor yn dynodi bod taliadau yr oedd eu cyfanswm yn £11,870 wedi cael eu gwneud mewn perthynas â Cyllid a Thollau EM.

122 Mae'r cofnodion ar y cyfriflenni'n nodi bod y taliadau hyn wedi cael eu gwneud i Mrs Morgan, e.e. Nat Banc Lloyds CaThEM, neu'n uniongyrchol i Cyllid a Thollau EM ei hun, e.e. CaThEM TWE XXNNNNNNX (Rhif Yswiriant Gwladol wedi'i dynnu allan).

**Arddangosyn 13: Taliadau Cyllid a Thollau EM a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan**

Rhwng 2013 a mis Medi 2017, mae cyfriflenni banc y Cyngor yn dynodi bod taliadau yr oedd eu cyfanswm yn £11,870 wedi cael eu gwneud i Cyllid a Thollau EM[17] ond mewn gwirionedd fe'u talwyd i gyfrif banc Mrs Morgan.

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau a gofnodwyd fel taliadau i Natalie Morgan | £0 | £0 | £200 | £0 | £745 | £1,777 | £2,722 |
| Taliadau a gofnodwyd fel taliadau i Cyllid a Thollau EM | £0 | £0 | £1,418 | £1,725 | £5,505 | £500 | £9,148 |
| Cyfanswm taliadau | £0 | £0 | £1,618 | £1,725 | £6,250 | £2,277 | £11,870 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Roedd Mrs Morgan yn ymwybodol o'r angen i gyfrifo didyniadau TWE ac i dalu'r didyniadau hyn i Cyllid a Thollau EM

123 Fel cyflogwr, rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnwyd i Cyllid a Thollau EM (CaThEM) bob mis neu chwarter ynghyd â chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Talu Wrth Ennill (TWE) yw'r enw ar y system hon. Rhaid talu didyniadau TWE i CaThEM. Rhaid i'r holl gyflogwyr gadw cofnodion y gyflogres hefyd.

124 Ym mis Ebrill 2017, fe sicrhaodd y Cyngor wasanaeth Rowlands and White Accountants (Orca Financial Management Limited bellach) i gyfrifo'i gyflogres. Mae Orca Financial Management Ltd wedi darparu copïau o slipiau cyflog ar gyfer y Cyngor rhwng mis Ebrill 2017 a mis Awst 2017. Nid oes cofnodion y gyflogres ar gael cyn mis Ebrill 2017.

125 Yn seiliedig ar y dystiolaeth yr wyf fi wedi'i gweld mewn perthynas â'r gyflogres a TWE yn y Cyngor, rwyf wedi dod i'r casgliad na chadwodd Mrs Morgan na'r Cyngor gofnodion priodol mewn perthynas â'r gyflogres cyn mis Ebrill 2017.

126 Canfu fy ngwaith archwilio yng Nghyngor Cymuned Llangynwyd Ganol fod Mrs Morgan, ar 10 Mai 2013 a 28 Hydref 2014, wedi gwneud taliadau i gyfrif bancio'r

[17] Mae'r cofnodion ar y cyfriflenni banc yn dangos taliadau i Mrs Morgan, e.e. NKMorgan CaThEM, neu'n uniongyrchol i Cyllid a Thollau EM ei hun, e.e. CaThEM TWE XXNNNNNNX (Rhif Yswiriant Gwladol wedi'i dynnu allan).

Llywodraeth CaThEM am £330.61 a £400.00 yn y drefn honno. Nid wyf wedi gallu canfod beth oedd y taliadau hyn yn ymwneud ag ef.

127 Fodd bynnag, er na chanfu fy archwiliad unrhyw daliadau pellach a wnaed gan Mrs Morgan i CaThEM gan Ynysawdre na Llangynwyd Ganol tra'r oedd yn Glerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol, mae'r ffaith ei bod wedi gwneud y taliadau hyn yn dangos ei bod yn ymwybodol o'r angen i ddidynnu treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogai o'i thaliadau cyflog, cyfrifo cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr a thalu'r eitemau hyn i CaThEM.

## Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Awst 2017, fe gychwynnodd Mrs Morgan daliadau yr oedd eu cyfanswm yn £11,870 gan ychwanegu disgrifiadau at y trafodion sy'n rhoi'r argraff bod y taliadau wedi cael eu gwneud i CaThEM

128 Canfu fy archwiliad na chafodd unrhyw daliadau eu gwneud yn uniongyrchol i CaThEM rhwng mis Ionawr 2015 a mis Awst 2017.

129 Er na chafodd unrhyw daliadau eu gwneud i CaThEM mewn gwirionedd, mae'r cofnodion ar gyfriflenni banc y Cyngor yn nodi cyfanswm o 19 o daliadau yn ystod y cyfnod hwn yr ymddengys mai i CaThEM y maent yn seiliedig ar y disgrifiadau a roddwyd i mewn gan Mrs Morgan.

130 Mae enghreifftiau o'r disgrifiadau a gofnodwyd yn y cyfriflenni banc yn cynnwys:

- Swyddfa Dreth Ynysawdre CC
- Swyddfa Dreth 615T14B
- Natalie Morgan Swyddfa Dreth
- Anfoneb CaThEM
- Dirwy CaThEM
- Ffïoedd CaThEM
- CaThEM [Rhif Yswiriant Gwladol wedi'i dynnu allan]
- Nat Banc Lloyds CaThEM

131 Mae **Arddangosyn 13** yn nodi cyfanswm y taliadau bob blwyddyn yr ymddengys eu bod wedi cael eu gwneud i Mrs Morgan a'r rhai yr ymddengys eu bod wedi cael eu gwneud yn uniongyrchol i CaThEM. Fe wnes i gadarnhau bod yr holl daliadau hyn, mewn gwirionedd, wedi cael eu gwneud i gyfrifon a ddelir gan Mrs Morgan a'i gŵr.

132 Dywedodd Mrs Morgan wrth yr heddlu 'ei bod hi'n talu bil CaThEM y Cyngor'. Fodd bynnag, mae'r trosglwyddiadau a wnaeth Mrs Morgan i'w chyfrif banc hi ei hun yr ymddengys eu bod yn gysylltiedig â CaThEM yn sylweddol fwy na'r symiau a ddylai fod wedi cael eu talu i CaThEM.

133 O fis Ebrill 2017, fe benododd y Cyngor Rowlands and White Accountants (Orca Financial Management Ltd bellach) i gyfrifo didyniadau TWE ar gyfer Mrs Morgan. Mae Orca Financial Management wedi darparu copïau ar fy nghyfer o'r cyfrifiadau

TWE a wnaed ganddynt ac wedi cadarnhau bod y rhain wedi cael eu darparu ar gyfer Mrs Morgan.

134 Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan Orca Financial Management, £1,164 oedd y cyfanswm a oedd yn daladwy i CaThEM rhwng mis Ebrill 2017 a mis Awst 2017 o'i gymharu â £2,277 a gofnodwyd fel y swm a dalwyd i CaThEM ond a dalwyd i Mrs Morgan mewn gwirionedd.

135 Mae allosod y taliadau TWE a oedd yn ddyledus ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Awst 2017 ar gyfer blwyddyn ariannol lawn yn dynodi y dylai cyfanswm y didyniadau TWE cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer y Cyngor fod tua £2,793. Mae hyn yn cymharu â thaliadau yn 2016-17 o £6,250 a dalwyd i mewn i'w chyfrifon banc personol hi mewn gwirionedd ac a oedd, yn ôl pob golwg, yn gysylltiedig â CaThEM a TWE. Nid wyf yn ystyried ei bod yn gredadwy bod Mrs Morgan wedi talu'r symiau hyn i mewn i'w chyfrif hi ei hun er mwyn talu rhwymedigaethau TWE y Cyngor.

136 Yn fy marn i, nid oedd gan Mrs Morgan unrhyw hawl gytundebol i gael y taliadau hyn. Mae'r disgrifiadau a ychwanegwyd at y trafodiad gan Mrs Morgan yn rhoi cyfrif ffug o natur y trafodion. Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi cadarnhau gyda CaThEM na chafodd CaThEM unrhyw daliadau mewn perthynas â'r Cyngor.

## Canfu fy archwiliad werth £28,979 o daliadau afreolaidd pellach a wnaed yn uniongyrchol i gyfrif banc Mrs Morgan gan gynnwys taliadau a gofnodwyd fel rhai a dalwyd i archwilydd mewnol y Cyngor ac amryw gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau allanol

137 Yn ogystal â'r trafodion afreolaidd a nodwyd uchod, canfu fy archwiliad gyfres o drafodion eraill sy'n afreolaidd yn fy nhyb i. Mae **Arddangosyn 10** yn crynhoi'r taliadau hyn a archwiliwyd yn ystod fy archwiliad. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o daliadau a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan:

**Arddangosyn 14: Taliadau afreolaidd a wnaed i gyfrif banc Mrs Morgan**

Yn ogystal â'r taliadau hynny a nodir uchod, rhwng mis Ebrill 2013 a mis Medi 2017, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau afreolaidd yr oedd eu cyfanswm yn £28,979 i'w chyfrif banc personol.

| Disgrifiad o'r gyfriflen banc | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio mewnol | £0 | £0 | £550 | £600 | £295 | £354 | £1,799 |
| Anfonebau trydydd partïon | £0 | £97 | £2,695 | £1,480 | £2,501 | £183 | £6,956 |

| Disgrifiad o'r gyfriflen banc | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prynu gliniadur | £0 | £0 | £0 | £1,803 | £1,119 | £0 | £2,746 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | £0 | £0 | £0 | £3,177 | £1,739 | £0 | £4,915 |
| Ffïoedd cyfreithwyr | £0 | £0 | £0 | £1,349 | £1,694 | £0 | £3,078 |
| Arall | £0 | £0 | £590 | £1,349 | £379 | £6,991 | £6,991 |
| Cyfanswm taliadau | £0 | £97 | £3,835 | £9,792 | £7,727 | £7,528 | £28,802 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Er ei bod yn ymddangos fel pe bai'r Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth archwilydd mewnol rhwng 2014 a 2017 am gyfanswm cost o £1,799, fe wnaed y taliadau hyn yn uniongyrchol i gyfrif banc personol Mrs Morgan

138 Mae Rheoliad 7 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol mewn perthynas â'i gofnodion cyfrifyddu a'i system o reolaeth fewnol.

139 Yn dilyn penodiad Mrs Morgan fel Clerc, bob blwyddyn rhwng 2013-14 a 2015-16, cafodd y Cyngor adroddiad a oedd yn ymddangos fel pe bai oddi wrth archwilydd mewnol o'r enw Sarah Lewis. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn ffurflen flynyddol y Cyngor ac mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys llofnod sy'n honni bod yn eiddo i Sarah Lewis. Ni chyfarfu'r cynghorwyr erioed â rhywun o'r enw Sarah Lewis.

140 Canfu fy archwiliad y taliadau canlynol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio mewnol:

**Arddangosyn 15: Taliadau a gofnodwyd fel rhai a oedd yn gysylltiedig ag archwilio mewnol**

Mae'r cofnodion ar gyfriflenni banc y Cyngor yn nodi taliadau a oedd yn gysylltiedig ag archwilio mewnol yr oedd eu cyfanswm yn £1,799 rhwng mis Mai 2013 a mis Awst 2017.

| Dyddiad | Manylion a gofnodwyd ar y gyfriflen banc | Gwerth |
|---|---|---|
| 3 Ionawr 2015 | Archwiliad | £275 |
| 2 Chwefror 2015 | Ffi Archwilio | £275 |
| 14 Mai 2015 | Ad-daliad Archwilio | £275 |

| Dyddiad | Manylion a gofnodwyd ar y gyfriflen banc | Gwerth |
|---|---|---|
| 2 Hydref 2015 | Archwiliad | £325 |
| 3 Mai 2016 | Archwiliad Ynysawdre | £295 |
| 18 Ebrill 2017 | Archwilydd mewnol | £354 |
| Cyfanswm | | £1,799 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

141 Cadarnhaodd fy archwiliad fod y taliadau a gofnodwyd yn **Arddangosyn 15**, mewn gwirionedd, i gyd wedi cael eu talu i mewn i gyfrif banc personol Mrs Morgan.

142 Sarah Lewis oedd archwilydd mewnol honedig Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol ar gyfer y cyfnod hwn hefyd. Tuag at ddiwedd 2017 ac yn gynnar yn 2018, fe geisiodd Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol ddod o hyd i'r archwilydd mewnol ond methodd â gwneud hynny.

143 Nid wyf yn ystyried ei bod yn gredadwy bod Mrs Morgan wedi sicrhau gwasanaeth rhywun o'r enw Sarah Lewis i ddarparu swyddogaeth archwilio mewnol ar gyfer y Cyngor. Fy nghred i yw bod Mrs Morgan wedi cwblhau'r adroddiadau archwilio mewnol ei hun.

## Mae'r cofnodion ar gyfriflenni banc y Cyngor yn nodi taliadau o £6,956 yr ymddengys eu bod yn ymwneud â nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd gan drydydd partïon, ond a wnaed i gyfrif banc personol Mrs Morgan

144 Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Awst 2017, fe drosglwyddodd Mrs Morgan gyfanswm o £6,956 i'w chyfrifon banc personol yr ymddengys ei fod yn gysylltiedig â thaliadau i gyflenwyr trydydd parti. Mae'r taliadau hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau Glanhau'r Ardd Gymunedol £2,570
- Taliadau i unigolion/cwmnïau a enwir £2,953
- Taliadau i 'Grefftwr' £900
- Taliadau eraill £933

145 Ymddengys fod y taliadau hyn ar gyfer cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau trydydd parti i'r Cyngor. O ystyried y symiau dan sylw a bod taliadau wedi cael eu gwneud trwy drosglwyddiad banc, yn fy marn i nid oes unrhyw reswm dilys pam na ddylai'r taliadau fod wedi cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r cyflenwyr.

### Hawliodd Mrs Morgan ad-daliad am dri gliniadur a brynwyd o fewn cyfnod o ddeng mis rhwng mis Awst 2015 a mis Mehefin 2016 a oedd yn hawliad gormodol o £2,746

146 Ar 15 Gorffennaf 2012, talodd Mrs Morgan £455.59 i mewn i'w chyfrif banc gan gofnodi hwn fel 'Prynu gliniadur'.

147 Ar ôl prynu'r gliniadur yma, fe wnaeth Mrs Morgan daliadau pellach i'w chyfrifon personol am y symiau canlynol:

**Arddangosyn 16: taliadau sy'n gysylltiedig â gliniaduron, meddalwedd ac offer swyddfa**

Taliadau sy'n gysylltiedig â gliniaduron, meddalwedd ac offer swyddfa.

| Dyddiad | Manylion a gofnodwyd ar y gyfriflen banc | Gwerth |
|---|---|---|
| 9 Gorffennaf 2015 | NKM Meddalwedd | £229.00 |
| 27 Medi 2015 | NKM Offer Swyddfa | £725.00 |
| 14 Tachwedd 2015 | NKM Gweinyddol | £548.59 |
| 14 Tachwedd 2015 | NKM Gweinyddol | £548.59[18] |
| 3 Chwefror 2016 | NKM Meddalwedd | £299.97 |
| 9 Mai 2016 | NKM Maplin | £99.99 |
| 16 Mai 2016 | NKM Offer | £409.98 |
| 29 Mai 2016 | NKM Swyddfa | £409.98 |
| 28 Mehefin 2016 | NKM Argraffydd Swyddfa | £199.48 |
| Cyfanswm | | £3,470.58 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

148 Yn ychwanegol at y symiau hyn a hawliwyd gan Gyngor Cymuned Ynysawdre, hawliodd Mrs Morgan ad-daliadau o £548.59 gan Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol ar 24 Tachwedd 2015. Hawliodd Mrs Morgan ad-daliad o £409.98 gan Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol am gost gliniadur ar 8 Mehefin 2016 hefyd.

[18] Ail daliad o £548.59 a wnaed ar 14 Tachwedd yw hwn.

149 Yn fy marn i, nid oes cyfiawnhad rhesymol dros brynu hyd at bum gliniadur mewn cyfnod byr o 10 mis rhwng mis Medi 2015 a mis Mehefin 2016. Felly, a thybio bod Mrs Morgan yn wir wedi prynu gliniadur ym mis Medi 2015, rwy'n ystyried ei bod yn hynod annhebygol bod Mrs Morgan wedi prynu gliniadur newydd ddwywaith ym mis Tachwedd 2015 a dwywaith ym mis Mehefin 2016.

150 Yn fy marn i, o ystyried bod hawliadau Mrs Morgan yn erbyn Cyngor Cymuned Ynysawdre ac yn erbyn Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol wedi'u dyblygu, mae'n hynod annhebygol bod Mrs Morgan mewn gwirionedd wedi ysgwyddo'r gwariant, fel a nodir uchod, y gwnaeth ei ad-hawlio gan y Cyngor.

## Disgrifiodd Mrs Morgan werth £4,915 o daliadau a wnaed i mewn i'w chyfrif banc personol hi fel taliadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

151 Gan ddechrau ym mis Mehefin 2015, fe wnaeth Mrs Morgan gyfres o drafodion a oedd yn golygu trosglwyddo arian i'w chyfrifon personol ond gan gofnodi disgrifiad a oedd yn dynodi bod y taliadau wedi cael eu gwneud i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP).

**Arddangosyn 17: taliadau a gofnodwyd fel rhai a wnaed i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Trosglwyddodd Mrs Morgan £4,915 i'w chyfrifon banc personol ond cofnododd y taliadau hyn fel taliadau a oedd yn gysylltiedig â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| Dyddiad | Manylion a gofnodwyd ar y gyfriflen banc | Gwerth |
|---|---|---|
| 9 Mehefin 2015 | CBSP 69725 | £509.63 |
| 25 Mehefin 2015 | CBSP Anfoneb Tarmac | £834.01 |
| 2 Gorffennaf 2015 | CBSP | £125.00 |
| 16 Awst 2015 | CBSP Hawliau Tramwy | £250.00 |
| 21 Awst 2015 | CBSP 957821 | £600.00 |
| 4 Medi 2015 | CBSP Hawliau Tramwy | £450.00 |
| 12 Rhagfyr 2015 | CBSP 957974 | £124.26 |
| 2 Chwefror 2016 | CBSP | £283.74 |
| 3 Mai 2016 | CBSP | £246.84 |
| 22 Gorffennaf 2016 | CBSP | £500.00 |
| 21 Awst 2016 | CBSP | £500.00 |

| Dyddiad | Manylion a gofnodwyd ar y gyfriflen banc | Gwerth |
|---|---|---|
| 15 Medi 2016 | CBSP | £492.00 |
| Cyfanswm | | £4,915.48 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

152 Rwyf wedi cadarnhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr na chafodd unrhyw daliadau mewn perthynas â'r Cyngor ar yr adegau hyn.

153 Fe wnaed pob un o’r taliadau hyn i gyfrifon banc personol Mrs Morgan. Nid wyf wedi gallu cadarnhau unrhyw reswm dilys dros fod wedi gwneud y taliadau hyn. Felly, rwy’n dod i’r casgliad nad oedd y taliadau hyn i Mrs Morgan yn daliadau cyfreithlon.

## Mae’r cofnodion ar gyfriflenni banc y Cyngor yn nodi gwerth £3,078 o daliadau a wnaed i gyfrifon banc Mrs Morgan fel taliadau ffioedd cyfreithwyr

154 Rhwng mis Awst 2015 a mis Ionawr 2017, cafodd Mrs Morgan daliadau a ddisgrifiodd fel ffioedd cyfreithwyr.

155 Nid yw fy archwiliad o gofnodion y Cyngor wedi canfod unrhyw gyfeiriad at gymeradwyaeth gan y Cyngor i Mrs Morgan adhawlio ffioedd cyfreithwyr personol gan y Cyngor.

156 Yn niffyg cymeradwyaeth o’r fath gan y Cyngor, yn fy marn i, nid oedd gan Mrs Morgan unrhyw reswm cyfreithlon dros wneud y taliadau hyn iddi hi ei hun.

## Fe wnaeth Mrs Morgan daliadau yr oedd eu cyfanswm yn £9,309 nad oes tystiolaeth ddigonol ar eu cyfer i ddangos bod ganddi hawl i gael y taliadau

157 Wrth wneud taliadau trwy drosglwyddiad banc, fel arfer roedd Mrs Morgan yn cofnodi rhyw fanylion i ddynodi diben ymddangosiadol ar gyfer y taliad. Fodd bynnag, fe wnaeth Mrs Morgan gyfres o daliadau yr oedd eu cyfanswm yn £7,656 heb iddi gofnodi unrhyw fanylion ar gyfer diben y taliad. Roedd y taliadau hyn yn cynnwys:

- 2 Mai 2015 £495
- 12 Gorffennaf 2017 £1,500
- 17 Gorffennaf 2017 £695
- 24 Gorffennaf 2017 £1,000
- 8 Awst 2017 £600
- 16 Awst 2017 £2,429

158 Ar 26 Mai 2015, trosglwyddodd Mrs Morgan £350 i'w chyfrifon personol a ddisgrifiwyd fel 'Rhodd'. Ar 11 Ionawr 2015, talodd Mrs Morgan £150 iddi hi ei hun gan ddisgrifio'r taliad hwn fel 'Cman Allow Don'. Nid oes unrhyw wybodaeth arall ar gael i ddynodi derbynyddion bwriadedig yr arian yma a pham na thalwyd yn uniongyrchol i'r derbynnydd.

159 Ar 2 Mehefin 2016, fe hawliodd Mrs Morgan ad-daliad o £18.95 am gostau postio. Fodd bynnag, fe hawliodd ad-daliad o £18.95 am gostau postio gan Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol ar 28 Mehefin 2016 hefyd. Rwy'n ystyried ei bod yn hynod debygol bod Mrs Morgan wedi gwneud hawliad dyblyg am gostau postio ac nad oedd hawl ganddi i'r ad-daliad.

160 Mae taliadau eraill a wnaed yn cynnwys trafodion a ddisgrifiwyd fel:

- Gweinyddol
- Ffïoedd LSCC
- Rhandir

161 Yn fy marn i, mae'n hynod annhebygol bod gan Mrs Morgan hawl gyfreithlon i wneud y taliadau hyn i'w chyfrifon personol.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Website: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.